

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: rob@wennol.cymru

Cyfrol 7 Rhif 3

Yn rhad ac am ddim

Mehefin 2026



Cwrs Cymraeg St Brieuc 2026

Cwrs Cymraeg arbennig yn St Brieuc (Llydaw)

gan Mikeal Conq

Ers dros 10 mlynedd, mae cwrs undydd arbennig i ddysgu a gwella'r iaith Gymraeg wedi cael ei gynnal yn St Brieuc, yng Nghanolfan Ddiwylliannol Abherve. Cynigiwyd dau lefel gan ddwy athrawes, yn wreiddiol o Gymru. Y lefel ganolradd gyda Ffran a'r lefel uwch gyda Carys.

Eleni wnaeth tua ugain o fyfyrwyr cymryd rhan o bob oedran ac o wahanol rannau o Lydaw: Léon, Kerne, Tréger, rhanbarth Naoned, Roazhon a Gwened.

Fe wnaethon ni gyflwyno ein hunain yn y Gymraeg; astudion ni gerdd gan Mererid Hopwood "Y sbectol hud", trafodon ni am

amrywiol bynciau: er enghraifft ar gyfer ein pryd diweddaraf mewn bwyty, ein gwyliau yng Nghymru neu rywle arall yn y byd.

Aeth y diwrnod heibio'n rhy gyflym. Diolch i Benead a Brieg sy'n arfer trefnu'r diwrnod bob blwyddyn.

Dw i'n siarad ar ran fy nhîm. Diolch i'n tiwtor, fe wnaethon ni ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r dydd ar ffurf deialog gyson gyda hi a'r myfyrwyr eraill mewn awyrgylch gweithiol ond dymunol a phleserus iawn.

Ac wrth gwrs, diolch yn fawr i'r tiwtoriaid, Ffran a Carys, am ein helpu i symud ymlaen. Yn bersonol, rwy'n brysur yn paratoi i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol 2026 yn y Garreg Las i fod yn wirfoddolwr a siarad Cymraeg gyda phawb!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Gerddi Aberglasne – Rhan 2:

Y Gerddi Heddiw

gan Martin Jones



Yn y rhan gyntaf o'r erthygl hon, ysgrifennais am hanes y gerddi ac esbonio sut, rhyw 30 o flynyddoedd yn ôl, achubodd Ymddiriedolaeth Adfer Aberglasne yr ystâd rhag mynd i ebargofiant ar ôl cyfnod o esgeulustod a'u hadfer nhw i ddod yn un o erddi gorau Cymru. Felly, sut mae'r tŷ a'r gerddi erbyn hyn?

Er bod nifer o bobl wedi cymeradwyo Aberglasne i ni dros y blynyddoedd, mae'n rhaid i fi gyfaddef taw dim ond ddwy flynedd yn ôl ymwelon ni a'r tŷ a'r gerddi am y tro cyntaf. Er roedd llawer o geir yn y maes parcio, doedd y gerddi ddim yn teimlo'n brysur, ac wrth i ni gerdded trwy'r gerddi gwelon ni bron neb arall. Doeddwn i ddim yn credu pa mor llonydd ac ymlaciol oedd popeth, a dyma'r profiad bob tro i ni ymweld ag Aberglasne byth ers hynny.



Dydy Aberglasne ddim yn fawr, ond y tu mewn i'w ddeg erw mae deuddeg o erddi o wahanol steiliau, rhai'n ffurfiol fel Gardd y Cloestr, yr unig un o'i math yn y Deyrnas Unedig o oes Elizabeth sy wedi goroesi, a'r Ardd Furiog Uchaf; a rhai'n anffurfiol fel Gardd y Nant a'r Gerddi Coetir. Hefyd mae Ninfarium, gardd unigryw wedi'i phlannu mewn adfeilion ystafelloedd canolog yr hen blasty, wedi'i henwi ar ôl yr ardd a gafodd ei chreu o gwmpas adfeilion pentref Ninfa i'r de-orllewin o Rufain.

Ac, wrth gwrs, mae'r gerddi'n newid wrth i'r tymhorau'n newid, felly mae wastad rhywbeth gwahanol i'w weld. I fi, mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys y canlynol. Ym mis Ebrill, mae'r coetiroedd yn garped o glychau'r gog, tra gwelir y twnnel afalau surion yn ei holl ogoniant. Mae mis Mai'n rhoi i ni'r bwa wisteria hyfryd, sydd mewn gwirionedd yn dwnnel deg meter ar hugain o hyd. Ac o fis Mai ymlaen, mae'r Wal Rosod yn olygfa a hanner. Ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, mae "Tân Canol y Gaeaf" yn drawiadol, gyda'i goesynnau sy'n newid o oren ar y gwaelod i goch llachar ar ei flaenau ac sy'n dod â lliwiau annisgwyl i'r gerddi yn ystod tywyllwch y gaeaf.



Wrth i chi crwydro trwy'r gerddi, peidiwch ag anghofio i edrych tuag at i fyny i weld y barcudiaid yn hofran ac yn plymio! Ac i orffen, beth sy'n well na galw heibio i'r ystafelloedd te ac eistedd ar y teras i fwynhau paned o de neu goffi a darn o deisen gartref wrth edrych dros Ardd y Pwll - ffordd berffaith o ddod ag eich ymweliad i ben.


Diolch yn fawr Martin am ddangos bod llawer o bethau gwych i'w weld yn ein gwlad ein hunain. Mae tueddiad y dyddiau yma i feddwn am dramor pan mae rhywun yn meddwl am wyliau er bod gymaint i weld yn ein gwlad ein hunain. - Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Can we have this book reprinted please?

It is so useful in showing how new words grow from one base word. A fascinating insight into something that we take for granted because it is there in front of our very eyes.

Words develop in this way in all languages and Welsh is no exception. A glance into the pages of this book can help you instinctively work out what a particular word means once you can see how it is constructed.



The book is out of print but available online at silly prices. Below is an extract so that you can judge its importance for yourselves

gwasg (au) (oedd) (gweisg) f = press gwasg m/f = waist		
y wasg leol - the local press		y wasg ddyddiol - the daily press
gwasgedd (au) = pressure	gwasgareddu = to pressurise	cogydd(ion) m=cook gwasgogydd m = pressure cooker
gwasgu = to squeeze	gwasgedig = pressured, squeezed	gwasgedd m = squeezer
diwasgedd (au) m = depression, weather	gwasgedd aer = air pressure	gwasgfa credyd = credit squeeze

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Sue, Cymraeg a'r Sbaeneg

Sue ydw i a dw i'n byw yn Nhreforys. Dw i wedi bod yn siarad Cymraeg am sbel nawr ond hefyd dw i wedi dechrau dysgu Sbaeneg ac yn lwcus iawn i gyfarfod merch o Sbaen sydd yn moyn rhywun i helpu hi ddysgu Saesneg.

Marta ydy ei henw hi a dw i'n siarad gyda hi bob wythnos a nawr mae hi'n llawer haws i mi siarad Sbaeneg pan dw i'n mynd i Sbaen.

Dw i wedi dweud wrth Marta am Gymru ac ein hiaith a nawr pan dw i'n siarad gyda hi dw i'n dysgu tipyn o Gymraeg iddi hi.

Catherine Evans



Helo, Catherine dw i a dw i'n byw yn Nhredeggar. Dw i'n dysgu Cymraeg,

Dw i'n hoffi tynnu lluniau, tynnais i'r llun yma.

Yn Nhrefil, Tredeggar, mae hen bwl hardd. Mae'r pwll mewn hen chwarel calchfaen. Mwynheais i ymweld â'r lle, mae'n dawl ac yn heddychlon. Mae'r hen ddiwydiant wedi mynd ac yn gwneud lle i natur newydd! Yn anffodus alla i ddim mynd yno nawr achos mae'r ffordd yn ddrwg, ond mae'r llun hyfryd dal gyda fi. Mae llawer o harddwch yn Nhredeggar!

Alan Watkins

Shw mae, Alan ydw i. Dw i'n byw ym Mhont-y-pŵl yn ne Cymru. Dechreuais i ddysgu Cymraeg o ddifri ar ôl i mi ymddeol. Mae dau gi gyda fi a pan dw i'n gallu, (dw i'n trio mynd unwaith yr wythnos), gwirfoddolwr ydw i mewn ysbyty lleol a dw i'n mynd gyda fy nghyngor i ymweld â'r cleifion, a rhoi sesiynau 'ci therapi' iddyn nhw. Pan dyn ni'n mynd yno mae hi'n gwneud llawer o wahaniaeth i'r cleifion a'r staff hefyd. Dw i'n teimlo mae hi'n gwneud lles i'r bobl yna.

Dw i'n hoffi cadw fy hun yn brysur. Mae nifer o hobïau gyda fi. Dw i'n mynd i'r clwb cerfio ble dw i'n gallu cerfio pren a dw i'n gwneud pethau fel llwyau caru neu gerflun o ddreigiau Cymreig neu anifeiliaid. Mae gweithdy bach gyda fi, ble dw i'n gallu gwneud bowlen ar fy nhurnen. Dw i wrth fy modd pan dw i yn fy ngweithdy, yn gwneud pethau mewn pren. Unwaith yr wythnos dw i'n mynd i'r clwb celf gyda ffrindiau, ble dyn ni'n gallu peintio dyfrlliw a sgwrsio, ond dim yn Gymraeg yn anffodus.

Ambell waith yn yr wythnos dw i'n mynd i'r clwb clonc neu fore coffi gyda grŵp o bobl sy'n gallu siarad yn Gymraeg. Dyma ble dyn ni'n gallu ymarfer ein hiaith Cymraeg gyda phaned o de neu goffi. Diolch am ddarllen.



Reading

As I've said before reading is a very important part of learning. In your lessons you get the rules but reading gives you the practical. Get hold of a children's book to start with and work up as your studies progress.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Gogledd Sir Benfro mewn Blodau

Sarah Price



Yn ein hardal ni dyn ni'n gwybod bod y gwanwyn ar ei ffordd pan fydd carped o gennin Pedr yn yr ardd uwchben Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Bob blwyddyn mae pobl yn gobeithio bydd y cennin Pedr yn blodeuo erbyn Gŵyl Dewi ac, fel arfer, mae e'n digwydd mewn amser, ond dim bob tro.

Ar ôl y cennin Pedr dyn ni'n edrych ymlaen at glychau'r gog. Un o'r lleoedd gorau am glychau'r gog yw'r coetir drws nesaf i draeth Abermawr, tua 6 milltir o Abergwaun ac yn agos at Felin Tregwynt (lle gwydych chi am goffi a chacen!). Mae llawer ohonyn nhw ond, y dyddiau yma, mae garleg gwyllt yn cystadlu gyda nhw, felly mae gwledd o flodau gwynion a gleision. Mae lliwiau'r ddau blanhigyn yn ymateb i'w gilydd yn dda ond mae arogl y garleg yn gryfach nag arogl clychau'r gog!



Garleg gwyllt a Chlychau'r Gog yn Abermawr

Pan ddaw'r haf, mae'r cloddiau dan eu sang gyda phob math o flodau, er enghraifft blodau neidr, bysedd y cŵn, llysiau'r llwynog a blodau'r menyn. Ar lwybr yr arfordir mae blodau gwahanol fel archmain a gwlydd y geifr. Dyn ni'n lwcus iawn i fyw mewn ardal gyda chymaint o blanhigion gwyllt gwahanol.

Diolch i hawb sydd yn cyfrannu straeon at
Y Wennol
a helpu dysgwyr ddarlenn wrth roi
rhywbeth diddorol iddyn nhw ddarlenn
bob mis

Maria Lalic



Cerdded Llwybr yr afon Gwy

Ers Mis Mawrth, dw i wedi bod yn cerdded mwy nag arfer. Ro'n i wedi penderfynu cymryd rhan yn her "Cerdded y Gwy" ym Mis Mai i godi arian dros ysbyty Felindre. Dechreuais fy hyfforddiant gan gerdded 7 milltir i'm cartref o Fynydd Cynffig. Ers hynny, dw i wedi cerdded rywle yn yr ardal pob wythnos: o'r Pîl i fy ngartre (9 milltir) ac o Bort Talbot (12 milltir) adref. Cerddais o Fryncethin i Donysguboriau (14 milltir), o Gaerfyrddin i Langain (11 milltir) ac o Dondu ar draws Mynydd Baedan i Faesteg (15 milltir).

Dydd Sul diwetha' es i i Drefynwy am yr her. Roedd y daith yn dechrau ger Trefynwy, mynd drwy Redbrook ac wedyn lan i Llwybr Clawdd Offa. Ar ôl sawl milltir, roedd y daith yn croesi'r afon ar bont Bigsweir ac yn dilyn Llwybr Dyffryn Gwy yn ôl i Drefynwy. Cyrhaeddais y Babell Cofrestriad pedwar awr a hanner ar ôl i mi adael. Yn y cyfamser - a diolch i noddwyr - codais i £330 i'r gronfa. Roedd yn ddiwrnod a thaith fendigedig. Ac un peth arall - dw i'n sylweddoli pa mor lwcus ydw i fyw mewn lle mor hardd.

Joan Cooper



Dw i'n cerdded gyda cherddwyr Abertawe. Ym mis Ebrill aethon ni am dro ar lwybr camlas Castell Nedd ac mi welais dwy alarch gyda nyth ac wyau. Yn ffodus doedd ganddyn nhw ddim diddordeb ynom ni, felly roedd yn hawdd i ni dynnu lluniau.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Telynores o Swydd Efrog

gan Liz Price



Helo Pawb,

Liz dw i. Dw i'n byw yn Nwyrain Swydd Efrog (ond, hoffwn i fyw ar Ynys Môn!).

Dwi wedi bod yn dysgu Cymraeg am sbel rŵan ac, yn ystod fy nhaith Cymraeg, dw i wedi mwynhau dysgu am ddiwylliant Cymreig, yn enwedig cerddoriaeth Cymraeg.

Felly, dw i wedi dechrau dysgu sut i chwarae'r delyn. Mae wedi dod yn obsesiwn braidd. Mae gen i dipyn o delynau erbyn hyn ac, ers i mi ymddeol, dw i'n treulio llawer o amser yn chwarae ac ymarfer y delyn. Dw i'n chwarae i gleifion a staff yn ein hosbis leol ac, weithiau, i'r Gymdeithas Gymreig leol hefyd. Yn bennaf, trefniadau o gerddoriaeth werin Geltaidd ydyn nhw.

Dw i'n mwynhau gwrando ar chwaraewyr eraill fel Cerys Hafana, dynes ifanc syn canu'r delyn deires. I fod yn onest, mae'n ddigon anodd i chwarae un set o llynynau, ond mae hi'n chwarae tri at unwaith - dychmygwch y tiwnio! Dw i'n meddwl bod pobl fel Cerys yn newid wyneb gerddoriaeth Cymraeg werin efo cerddoriaeth gwreiddiol ac arbennig iawn.

Dw i'n meddwl am y delyn fel canlyniad anfwriadol hyfryd o ddysgu Cymraeg a dw i'n ddolchgar iawn i'r iaith.

Telynores o America

gan Darhon Rees-Rohrbacher



Ces i fy ngeni a fy magu yng ngogledd-ddwyrain Ohio. Mae fy nghysylltiad Cymreig ar ochr fy nhad; roedd ail hen daid fy nhad o Gymru a symudodd e i Pennsylvania tua 1800. Byddai teulu fy nhad yn aml yn siarad yn falch am eu treftadaeth Gymreig. Felly, fel oedolyn, dechreuais i archwilio'r iaith Gymraeg, ei cherddoriaeth, a'i diwylliant.

Fy archwiliad difrifol cyntaf o'r Gymraeg oedd datganiad lleisiol pan oeddwn i'n fyfyrwr cerddoriaeth raddedig ym Mhrifysgol Indiana. Ro'n i eisiau canu darn o ganeuon yn y Gymraeg, felly es i at hyfforddwr iaith Gymraeg. Roedd y caneuon yn ganeuon traddodiadol Cymreig hyfryd, ac roedden nhw'n cael eu cyfeilio gan Cheryl Ann Fulton ar delyn driphlyg a wnaed yng Nghymru gan Basset Jones. Dywedodd aelodau'r gynulleidfa, pan ddechreuais i ganu yn y Gymraeg, roedd fy wyneb cyfan wedi'i drawsnewid ac roedd fy llais yn arddangos ansawdd hyfryd nad oedden nhw erioed wedi'i glywed o'r blaen.

Mewn gwirionedd, fe wnaeth y profiad hwn danio fy niddordeb yn y delyn, a dechreuais i gymryd gwersi telyn Geltaidd ar ddiwedd 1987.

Yn haf 1987, teithiais i Gymru a chystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol a dod yn drydydd yn adran y soprano clasurol. Ym 1988, cefais i ysgoloriaeth Gymreig a alluogodd i mi deithio'n ôl i Gymru am fwy o astudiaeth; yno, cymerais i gwrws dwys yn y Gymraeg yn Aberystwyth ("Cwrs Carlam") ac arhosais i gyda menyw sy'n siarad Cymraeg. Tra ro'n i yno, cystadlais i yn yr Eisteddfodau Genedlaethol a rhyngwladol er enillais i ddim. Ym 1990, mynychais i'r cwrs dwys yn y Gymraeg yn yr haf a gynhaliwyd yn Llanbedr Pont Steffan. Fel y gallwch chi weld, ro'n i'n wir yn cael fy nhrochi yn y Gymraeg!

Do you want to feel good?

Be part of The Wennol!

The Wennol has grown a great deal since the first issue in 2020 and I'm sure has helped a great deal of Welsh learners with both their reading and writing skills.

Would you like to see your story in print?

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Yn ystod y cyfnod hwn, dechreuais i ymwneud yn fawr â rhai cymdeithasau Cymry-Americanaidd. Mewn gwirionedd, dw i wedi arwain sawl “Gymanfa Ganu” fel rhan o fy ymwneud â'r cymdeithasau hyn. Yn ogystal, dw i wedi canu'r delyn ar gyfer rhai o'u ciniawau.

Sawl blynyddoedd yn ôl, ro'n i'n siarad ag un o'r menywod o'r grŵp gwerin Cymreig, “Calan,” pan oedden nhw'n perfformio yn fy ardal. Pan dywedais i wrthi hi am fy ngweithgareddau Cymreig niferus, dywedodd hi wrtha i, “Wyt ti'n debyg yn fwy Cymreig na'r rhan fwyaf o'r Cymry.”

Ar hyn o bryd dw i'n astudio Cymraeg bob wythnos drwy Zoom. Dw i'n hwyluso "Siop Siarad" bach, lleol, ar-lein sy'n gyfarfod fore Sadwrn. Dw i hefyd yn mynychu Siop Siarad nos Fercher o Rio Grande, Ohio. Yn y gorffennol, dw i wedi mynychu Wythnos Treftadaeth Cymru a Chwrs Cymraeg. Fy nod yw cyflawni mwy o feistrolaeth ar yr iaith.

Garddio a fi

gan Rob Evans

Dw i'n hoffi garddio ond yn benaf, tyfu llysiau a ffrwyth. Tua wyth mlynedd yn ol nes i blannu coed falau Cymreig. Mae rhaid aros am bedair blynedd o leiaf cyn i chi gael ffrwyth a ches i lwythau o afalau, cymaint roedd rhaid i mi bron byw ar crwmbl afalau. Lwcus mod i'n hoffi crwmbl afalau ynte!

Yn anffodus, nes i ddechrau gweld darnau o ganker ar ran fwyaf o'r coed a hynny achos doedd dim digon o galch yn y pridd. Ychydig ar y tro nes i dynnu'r hen goed allan a rhoi coed newydd yn eu lle. Ar ôl gwasgaru calch ar y tir wrth gws.

Y bore 'ma roeddwn i'n brysur yn cael gwared â aphs llwyd oedd yn bwydo ar y dail, maen nhw'n ddigon clyfar i fwydo ar ochr gefn y ddeilen ond mewn dim o amser dach chi'n gwybod bod nhw yna achos mae'r dail y cyrlio'n dyn. Un ffordd i gael gwared ohonyn nhw yw gwlychu eich bysedd a rhwbio nhw. Mae'n cymryd llawer o amser ond yn gallu bod yn therapiwtig hefyd.

Wel dyna lle o'n i yn mwynhau fy hun ac yn edrych ymlaen am gael brecwast a phaned o goffi

ac yn sydyn teimais i rhywbeth yn glanio ar fy mraich. Edrychais i lawr a gweld buwch goch gota! Ei gwaith hi oedd hyn ac roedd hi'n hawlio y goeden - ro'n i'n hapus i fynd am fy mrecwast!

**Taith Gerdded
Llwybr Treftadaeth
Canol Tref
Pen-y-Bont ar Ogwr
02/06/2026 - 14:30 - 15:30
Am ddim** Lefel: Mynediad a Sylfaen

Man cychwyn | Starting point:
Neuadd y Tabernacl, Heol y Dderwen, Pen-y-Bont, CF31 1LH.

Dan arweiniad | Led by:
Richard Cleaves, Cymdeithas Hanes Bra Ogwr History
Society www.facebook.com/CymdeithasHanesBraOgwr

QR code and logos for the organizing societies.

BOOK LAUNCH

**THE FIRST
RUPERRA
CASTLE**

EDITED BY
PAT JONES-JENKINS

6th JUNE '26
2:00 pm onwards
The Twyn Community
Centre
The Twyn,
Caerphilly CF83 1JL

Book launch & book sale event
patjonesjenkins.org.uk

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Stori drist a Dwys

gan Marie Mills

Tydy'r byd ddim yn berffaith, nac ydy? Doedd hi erioed wedi bod yn berffaith, a fydd hi byth yn berffaith chwaith. Mae sefyllfaoedd yn newid, tydyn, ond weithiau mae canlyniadau da yn dod o sefyllfaoedd trist.

Yn fy chwedegau erbyn hyn dw i'n deall agwedd fy nhaid o'r diwedd. Do'n i ddim yn ei ddeall e pan o'n i'n blentyn. Roedd e fel y byd i gyd, yn dipyn o ddirgelwch i mi.

Wrth yrru o gwmpas yn y cefn gwlad byddai'n stopio bob hyn a hyn i ladd cwningen fach oedd yn eistedd yn dawel ar ochr y lôn. Roedd rhaid iddo fe stopio. Doedd e ddim yn gallu dioddef eu dioddefaint nhw, ond pam?

Prynais i fy nghwningen gyntaf pan o'n i'n dair ar ddeg oed. Es i ar ddau fws ar fy mhen fy hun i'w chasglu hi o'r siop anifeiliaid anwes. Ro'n i wedi addo i fy hun ddewis enw go iawn iddi, nid un twp, ond cyn gynted a welais i hi oedd o'n Benjamin. Benjamin oedd yr un gyntaf ond mae llawer mwy wedi dod dros y blynyddoedd.

Ar ôl priodi cawson ni bâr oedd yn byw yn rhydd yn y tŷ. Roedd y ferch hynaf wrth ei bodd efo nhw. Mae cadw anifeiliaid anwes yn rhoi cyfle da iawn i'r plant ddysgu am fywyd, ond ydy? Sut mae anghenion yn newid, sut mae bywyd yn dechrau a sut mae e'n dod i ben? Cawson ni wasanaeth arbennig pan oedd angen claddu un. Mae Dudley yn gorwedd o dan gollen droellog borffor, mae Theo o dan Cedrus atlantica "Glauc" ond roedd rhaid i ni adeiladu carn fach uwchben bedd Bluebell achos bod digon o goed yn yr ardd erbyn hyn.

Darllenais y llyfr "the Secret Life of the Rabbit" gan grŵp ymchwil oedd yn aros yn Orierton yn Sir Benfro yn y chwedegau i astudio'r bywyd cymunedol a chymdeithasol cwningod gwyllt. Roedd sôn am myxomatosis. Sylweddolais fod e'n rhywbeth hollol newydd i Taid. Roedd e

wrth ei fodd yn y cefn gwlad. Roedd cwningod yn rhan o'i fywyd beunyddiol e ac roedd e'n dwlu arnynt. Wedyn daeth myxomatosis a bron iddyn nhw ddiflannu. Roedd e'n amser trist. Roedden ni gyd yn ei deimlo.



Wedyn, pan oedd y plant i gyd yn yr ysgol gynradd dewison ni ddechrau eu bridio nhw. Roedd y plant yn dysgu llawer. Mae pob un yn unigolyn. Ro'n ni'n cwrdd â llawer o bobl hyfryd oedd yn dwlu ar gwningod hefyd. Yn ystod cyfnodau clo ro'n ni'n defnyddio lliwiau'r cwningod i ddysgu am enynnau hyd yn oed.



Ond diolch byth doedd dim cwningen ifanc yma ar y pryd, na chwaith yn eu disgwyl nhw. Pam? Oherwydd roedd cwningen fach, wyllt oedd yn dioddef yn fawr iawn ac wedi dod i fyw ei dyddiau olaf yn ein gardd ni. Efallai roedd y gymuned cwningod wedi ei denu hi yma. Pwy a ŵyr? Ond fore ddoe es i allan ac roedd hi'n gorffwys reit wrth gaets Felix. Roedd e'n ymddiddori ynndi'n fawr iawn. Mae'n cael pigiad bob blwyddyn, ond mae'n dal yn bosib iddo fe gael ei heintio. Amser a ddengys. Mae'r mab wedi dysgu llawer am fyximatosis dros y penwythnos hwn, llawer mwy na allai gwersi bioleg ei ddysgu fe. Dyna rywbeth cadarnhaol sy'n dod o'r sefyllfa anodd yma.

Ond os dw i'n ei gweld hi jyst yn eistedd yn llonydd, heb redeg i ffwrdd, gobeithio bydda i'n ddigon ddewr i wneud yr un peth a fyddai fy nhaid. Tydy'r byd ddim yr un peth ag oedd e pan o'n i'n ifancach. Bellach dw i'n deall yn fy nghalon.

I chi sydd yn rhy ifanc i gofio mixymatosis mae'n rhaid i mi esbonio. Os oeddech chi'n mynd am dro roeddech chi'n gweld cwningod ar ochr y ffordd mewn cyflwr ofnadwy ac yn amlwg mewn poen. Y peth mwyaf caredig oedd i'w lladd nhw. Doedd hyn ddim yn gyfnod da o gwbl! - Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

**From the Department of Marketing,
Ministry of Peace, People's Republic of
China**

***Oddi wrth Adran Farchnata, Y
Weinyddiaeth Heddwch, Gweriniaeth
Pobl Tsieina***

Dyma ein ypdêd marchnata diweddaraf o ardal
"Afan, Ogwr, Rhondda" yng Ngweriniaeth
Annibynnol Cymru.

..... o

Yn dilyn y brydles gyntaf ar gar Jaecoo 7
DeLuxe i Mr John Cullwick o Ben-y-graig yn
Afan Ogwr Rhondda.

Mae bywyd yn dda yn Afan Ogwr Rhondda
(am bris cyflwyniadol arbennig o £37 y mis),
gallwn ddweud llawer wrthyh yn hyderus am y
farchnad newydd a ffyniannus hon:-

- Mae holl drigolion Afan Ogwr Rhondda
yn byw ar eu pen eu hunain mewn tai teras gydag
incwm blynyddol rhwng £20,000 a £25,000
- Mae pob preswlydd dros 80 oed.
- Dim ond ar y Sul y mae pob preswlydd yn
gyrru.
- Mae'r preswylwyr yn gyrru o dan 23mph
yn y trefi a'r pentrefi - a dan 48mph ar y
draffordd
- Mae pob preswlydd yn siarad Cymraeg
ac, os ydych chi'n eu ffonio nhw i gyflwyno'r
Jaecoo 7 DeLuxe, dylech chi ddechrau eich sgwrs
efo "Shwd mae, butt? Shwd mae pethau yn Afan
Ogwr Rhondda heddi?"
- Does neb yn yfed alcohol o gwbl. Does neb
yn bwyta siwgr chwaith.
- Mae gan bob preswlydd ail gar, sef Smart
Car efo 2 sedd, y maent yn ei barcio dros nos ar
sedd gefn y Jaecoo 7 DeLuxe.

Byddwn yn ypdetio'r marchnata diweddaraf
o'r ardal "Afan, Ogwr, Rhondda" wrth i ni werthu
mwy o geir yn yr ardal honno o Weriniaeth
Annibynnol Cymru.

***Bobl bach! Dyna le braf i fyw ynte? -
Rob***

Cymraeg i Bawb

gan Sara Jones

Bum mlynedd yn ôl yn ystod pandemig cofid
19, roedd yn rhaid i ni aros dan do a ninnau efo
amser ychwanegol ar ein dwylo. O ganlyniad
penderfynais dreulio mwy o amser yn dysgu
Cymraeg. Felly, yn 2021, fel rhan o ddathliadau
Dydd Gŵyl Dewi, trefnodd Menter Iaith Sir y
Fflint eisteddfod i ddysgwyr. Un o'r
cystadlaethau oedd, ysgrifennu deialog rhwng
dau berson - un sy'n dysgu Cymraeg, a'r llall
sydd wedi bod trwy addysg cyfrwng Cymraeg, ar
y thema "Cymraeg i bawb".

Gan fod gen i ddigon o amser dan do anfonais
fy nghyfraniad. A dyma fe.

Mae'r Gymraeg i bawb

Deialog rhwng Dylan a oedd wedi dysgu
Cymraeg yn yr ysgol ond heb ei ddefnyddio ers
hynny a Tom a oedd yn dysgu Cymraeg ar y pryd.

Dylan: hiya mate, wyt ti 'di bod yn y dosbarth
Gymraeg 'ma heddiw?

Tom: do wir, dw 'di mwynhau y dosbarth
bore 'ma. Beth amdana ti, dwi'n gweld wyt ti'n
siarad Cymraeg yn iawn.

Dylan: yndw, mi dylwn i.. achos dwi 'di bod yn
yr ysgol Gymraeg ers on i'n dair mlwydd oed,
diolch i fy rhieni. Ond does na ddim llawer o
gyfle i siarad yr iaith yn yr ardal 'ma yn anffodus
oherwyd ddim ond ychydig o bobl yr unig gallu
siarad Cymraeg.

Tom: yn wir? Mae hwnnan Gymru a dwi '
clywed dim ond 20% o bobl yn siarad Cymraeg.

Dylan: dyna druan wrth cwrs! Roedd hanes
Gymru/Cymraeg yn hir iawn. Mae 'na lawer o
resymau am ffaith hynny. Fy nhad oedd un o'r
bobl sy'n cael trafferth mewn dysgu Cymraeg
gyda "WELSH NOT" ac ati.

Tom: mae gen i diddordeb iawn i dysgu'r
hanes Cymru a dwi'n awyddus i siarad yr iaith i
gadw Cymraeg yn fyw.

Dylan: yr un ffordd dwi'n lwcus iawn achos yn
fy ngwaith dwi'n cwrdd â llawer o bobl bob dydd
ac weithiau dwi'n cael cyfle i siarad efo rhywun
sy'n siarad Cymraeg. Felly, gobeithiaf dwi'n
cadw yr iaith yn fyw. Hefyd fy mhiant ni yn ysgol
Cymraeg.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Tom: gobeithiaf byddwn ni anfon ein plant ni i'r ysgol Cymraeg hefyd.

Dylan: mae'n falch gynna i am glywed hynny. Roedd y llywodraeth Gymru datganiad yn ddiweddar eu cynlluniau nhw i gael filwn siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ar wahan i hugain mlynedd yn ôl rwan, mae 'na llawer o bobl yn dysgu Cymraeg. Bobl sy'n dwad o affrica, Asia, ac wledydd o Ewrop dysgu Cymraeg y dyddiau 'ma.

Tom: dwi 'di bod yn syllu mae 'na lawer o dosbarthdiadau, hyd yn oed ar lein ar hyn o bryd, Radio cymru a S4C teledu sy'n helpu hyfforddi dysgu'r iaith.

Dylan: yndan, byddi di'n weld pa mor bwysig Eisteddfodau am Gymru. Pawb yn cael hwyl cymryd rhan gyda eu dalentoid nhw.

Tom: bydda i'n edrych ymlaen dysgu'r iaith gyda fy mhlant a cymryd rhan yn Eisteddfodau yn y dyfodol.

Dylan: cofiwch "Cenedl heb iaith, Cenedl heb galon"

A nation without a language is a nation without a heart.

Tom: wrth cwrs, Mae'r Cymraeg i bawb.

Hwyl Dylan, diolch am y sgwrs.

Dylan: hwyl am y tro....

Felly, cefais syndod pan enillais y wobr gyntaf. Dyma llun fy tlws.

Mae'n hongian yn falch ar fy wal ac yn annog i mi ysgrifennu'r pwtyn bach hwn. Ni fydd Cenedl yn goroesi heb ei hiaith. Cymru am byth!



Ydych Chi'n Cofio mis Mehefin 1982?

gan Patrick Soper



Yn ystod gwanwyn 1982 anfonodd y DU llongau rhyfel, awyrennau a milwyr i Dde'r Iwerydd lle gwnaethon nhw ymladd cyfres o frwydrau yn erbyn lluoedd arfog yr Ariannin dros berchnogaeth grŵp bach o ynysoedd nad oedd llawer ohonon ni wedi clywed amdanynt erioed.

Dwy brif ynys yw Ynysoedd y Falklands, a dros 700 o ynysoedd bach, wedi eu lleoli dim ond 750 milltir i'r gogledd o'r Antarcig. Does dim adnoddau naturiol gan y Falklands, nid yw'r tymheredd llawer mwy na 15° hyd yn oed yn yr haf, ac mae'r gwynt bron yn ddi-baid.

Yn 1816 datganodd yr Ariannin ei fod yn wlad annibynnol o Sbaen. Hyd y gwyddon ni, capten Saesnig John Strong oedd y person cyntaf i roi troed ar yr ynysoedd, yn 1690, pan nad oedd neb yn byw yno. Serch hynny, gwnaeth yr Ariannin gynnwys y Falklands - 'los Islas Malvinas' - yn



rhan o'u diriogaeth ar y pryd ac am byth.

G y d a g amser, beth bynnag, daeth

Prydain i ystyried y Falklands yn anghyfleustra drud ac o dro i dro cynhaliwyd trafodaethau rhwng Prydain a'r Ariannin am y ffordd gorau i drosglwyddo'r ynysoedd i'r Ariannin yn ddistaw bach. Ond rhywsut cafodd yr ynyswyr wybod am y peth ac roeddynt yn flin fel cacwn, yn enwedig am fod yr Ariannin yn cael ei reoli gan yr unben Cadfridog Galtieri. Fel canlyniad, cafwyd y cynlluniau i drosglwyddo'r Falklands eu dileu.

Roedd Galtieri yn gynddeiriog ac ar yr 2il mis Ebrill 1982 mae e'n anfon llu arfog i oresgyn yr ynysoedd. Tri diwrnod yn ddiweddarach cychwynnodd cyrchlu llywodraeth Margaret Thatcher y daith dros y môr i orfodi'r goresgynwyr i fynd yn ôl adref. Ar ôl dau a hanner mis o frwydro, ildiodd lluoedd yr

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Ariannin ar 14eg mis Mehefin 1982, a daeth yr ynysoedd o dan reolaeth Brydain unwaith eto.

Parhaodd 'Rhyfel y Falklands' am 74 diwrnod. Yn ystod yr amser hwnnw cafwyd 649 o luoedd Ariannin eu lladd, yn ogystal â 255 o luoedd Prydain, a thri thrigolyn lleol. Collodd Brydain chwe llong a 34 o awyrennau, a chostiodd y rhyfel dros £2¾ biliwn - y byddai tua £10 biliwn heddiw.

Erbyn hynny mae trethdalwyr y DU yn gwario rhwng £60 - £70 miliwn pob blwyddyn ar gynnal a chadw'r ynysoedd.

Ydych chi'n cofio?

Argyfwng yn y Mynyddoedd

gan Mike Brown



Rhan 5

Ar ôl 15 munud roedd yn amlwg bod problem gyda fe. Er gwaethaf ei ymdrechion, nid oedd unrhyw arwydd o'r llwybr. Edrychodd ar y map unwaith eto i wirio ei leoliad. Dylai fod yna erbyn hyn ond doedd dim awgrym o lwybr yn unman. Amser am gynllun 'B', meddylodd.

Cymerodd ffôn symudol o boced ei got ac aeth i'r 'app', mapiau OS. Byddai'n ddefnyddio hwn ar adegau i wneud yn siŵr ble yn union roedd e. Mae'r map yn fyw neu'n rhyngweithiol felly byddai modd gweld lle'r oedd ar y map. Ond sylweddolodd yn gyflym, bod gyda fe broblem, nid oedd signal ffôn! Heb hyn, dim map. Ni lawr lwythodd y map cyn cychwyn a nawr ni fyddai cyfle i wneud hyn. Beth yn awr? meddylodd

Roedd e wedi dysgu dros y blynyddoedd taw'r peth gorau i wneud mewn sefyllfa fel hyn oedd atal, cymryd anadl a meddwl. Felly, penderfynodd e eistedd i lawr a gwirio popeth eto a cheisio gweithio mas ble roedd e. Ond ar ôl deg munud, roedd e mewn penbleth. Nid oedd dim byd yn gwneud synnwyr. Efallai bod y map

yn wallus? Roedd hyn yn ymddangos yn annhebygol ond beth arall allai fod. Edrychodd eto ar ei wats. Roedd hi'n dri o'r gloch. Roedd e wedi colli 45 munud nawr a byddai'n nosi erbyn pump. Nid oedd y niwl yn debyg o godi ac roedd yn rhy bell i droi o gwmpas ac olrhain ei gamau. Roedd yn ymrwymedig.

Nid oedd opsiwn gyda fe. Byddai rhaid iddo fynd ymlaen nawr gan gerdded mewn cyfeiriad o'r cwmpawd. Byddai'n araf heb lwybr a byddai niwl yn cyfyngu ar gynnydd. Felly, cymerodd gyfeiriant, pwyntiodd y cwmpawd a pharhaodd ar ei ddisgyn.

Rhan 6

Heb lwybr byddai'n rhaid iddo fod yn ofalus i geisio plotio ei daith ar y map. Dylai ei daith fynd â fe 1950m syth i lawr cyn byddai'n rhaid iddo fe droi i'r dde ar gyfeiriant i'r gogledd ddwyrain. Ar y pwynt hwnnw, dylai fod tir gwastad i'r gogledd ond llethr graddol i lawr yn ei gyfeiriad. Byddai'n rhaid iddo fe gyfrif ei gamau i fesur y pellter ac wedyn dylai siâp y tir gadarnhau fod e yn y lle cywir.

Roedd e'n defnyddio llai o egni wrth iddo fynd i lawr ac wrth i'r prynhawn fynd ymlaen, dechreuodd e deimlo'r oerfel. Roedd hi'n amser gwisgo haen arall o dan ei siaced fynydd. Cymerodd egwyl fach i gasglu ei feddyliau ac edrych ar y map eto. Roedd e wedi bod yn cyfrif ei gamau, 66 cam dwbl fesul 100m, felly roedd e bellach wedi cwblhau 1500m. O'r map, gallai weld bod y llethr yn dal braidd yn serth ar ôl 450m, ond iddo fe ymddangosai fel pe bai'n dechrau lleddfu. Penderfynodd dylai barhau cyfrifo ei gamau i weld ble byddai e cyn meddwl am ddatgan argyfwng iddo'i hun. Ond, ar ôl 100m pellach, roedd yn amlwg iddo fe nad oedd y llethr yn cytuno â'r map. Ond i brofi'r pwynt, aeth e ymlaen i gwblhau'r 1950m ac, fel disgwyliodd, doedd dim disgyniad i'r gogledd ddwyrain. Heb os nac oni bai, roedd e'n gwybod bellach ei fod ar goll.

Diolch i bawb sydd yn cyfrannu straeon at

Y Wennol

a helpu dysgwyr ddarllen wrth roi
rhywbeth diddorol iddyn nhw ddarllen
bob mis

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Byd Natur – mis Mehefin 2026

gan Patrick Soper



Clust-y-llygoden oren

Clust-y-llygoden oren yw'r unig aelod o deulu llygad-y-dydd sydd yn cynhyrchu blodau oren. Daeth y planhigyn lluosflwydd hwn yn wreiddiol o ardaloedd alpaidd canolig Ewrop; doth i Brydain yn blanhigyn yr ardd yn y 17eg canrif, efallai yn gynharach ac wedi ymgartrefu mewn ardaloedd canol a de Cymru a Lloegr yn hwyr yn y 18fed canrif. Erbyn hyn mae e'n ehangu ei gynefin i rannau'r Alban wrth ein hinsawdd mynd yn fwynach.

Gall y planhigyn gwydn hwn gyrraedd uchder o 8 modfedd wrth ymylon ffyrdd ac ar glytiau eraill o dir garw, gyda'i blodau atyniadol yn parhau drwy misoedd Mehefin a Gorffennaf. Yn yr un modd â'r blodau menynd yn ein lawntiau, dyma blanhigyn sydd yn ymledu drwy 'ymledyddion' neu 'rhedegwyr' sydd yn gallu datblygu gwreiddiau newydd.

Pan rydyn ni'n dod nôl ar ôl crwydro yn y cefn gwlad yn aml iawn mae yna hadau bach gwyrdd yn sticio i'n trowsus. Mwy na thebyg mai hadau'r llau'r offeiriad yw'r rhain dyma un o'n planhigyn gwyllt mwyaf cyffredin mewn cloddiau'r cefn gwlad, a'r hadau ohono rydyn ni'n cynorthwyo i'w dosbarthu.



Llau'r offeiriad

Mae ei flodau bach gwyn yn dod i'r fei ym mis Mai ac yn parhau tan fis Medi. Sgwâr yn hytrach na thiwbaid yw'r coesau, yn llyfn os rydyn ni'n llithro blaenau ein bysedd i lawr y coesau, ond maen nhw'n dipyn pigog pan rydyn ni'n lithro ein bysedd i fyny'r coesau - mae gan bob rhan o'r planhigyn hwn gywrychyn bach sydd yn pwyntio i lawr ac felly galluogi llau'r offeiriad dringo drwy afael yn ei gymdogion. Ac mae'r gywrychyn yn achosi'r hadau glynu wrth flew a brethyn.

Dywedid ers llawer dydd y dyma oedd anrheg y tylwyth teg y gallai wella ystod o glefydau. Roedd Meddygon Myddfai yn ei ystyried yn blanhigyn i drin llawer o afiechydon, yn enwedig anhwylderau'r croen.

Heddiw mae llau'r offeiriad yn boblogaidd gyda fforwyr y bydd yn ei ddefnyddio i wneud 'ffisig cryfhaol y gwanwyn'; ar y llaw arall, gall yr egin eu casglu i gynhyrchu potes, neu'r hadau wedi eu crasu i wneud rhyw fath o goffi. (Ond o'm rhan fy hun mae'n well gen i Kenco.)

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

11 Mai 2026 – Gweithfeydd Haearn, Cefn Cribwr
– John a Carole Mason

Adolygiad gan Nesta Humphreys

Roedd grŵp ohonon ni yn lwcus iawn gyda'r tywydd ar gyfer ymweliad gwych ag adfeilion y Gweithfeydd Haearn, Cefn Cribwr yng nghwmni John a Carole Mason.

Pan oedd plant John a Carole yn chwarae yn yr ardal rhai blynyddoedd yn ôl, gwnaethon nhw ddarganfod olion rhyw fath o weithfeydd diwydiannol ond beth yn union oedd yno yn y gorffennol?

Wrth gwrs, r o e d d diddordeb mawr gyda John a Carole ac maen nhw



a phobl eraill wedi gweithio'n galed iawn i ymchwilio'r safle. Mae dwy gloddfa archeolegol wedi bod yn bwysig iawn wrth ddatgelu mwy o olion y gweithfeydd haearn. Yn ddiweddar mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr gyda chyllid oddi wrth 'UK Shared Prosperity Fund' wedi trawsnewid y safle. Erbyn hyn mae'r safle a elwir yn Warchodfa Natur Parc Bedford wedi'i drawsnewid i 18 hectar o ofod gwyrdd yn ogystal ag adfeilion y gweithfeydd haearn. Mae'r safle wedi gweld gwelliannau, mynediad helaeth gyda llwybrau newydd i'r ardal gyfan gan gynnwys y gweithfeydd haearn.

Roedd yn hyfryd i gerdded trwy'r parc ar noson o dywydd braf i weld natur a gwrando ar yr adar yn canu. Mae'r gweithfeydd haearn yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwydiannol a'u rôl wrth gynhyrchu haearn gan ddefnyddio glo, haearnfaen a chalchfaen lleol gyda chyflenwad dŵr lleol.

Canolbwytiodd John a Carole ar hanes ac olion y gweithfeydd haearn a sefydlodd gan John Bedford yn 1771. Hefyd, sefydlodd e gweithfeydd brics gan ddefnyddio clai lleol. Mae'n debyg bo fe'n denu at yr ardal gan argaeledd deunyddiau crai a'i agosrwydd at y môr. Yn anffodus doedd e ddim yn ddyn busnes gwych a phan fu farw e ym 1791 gwerthwyd y gweithiau.

Cymerodd olynnydd Bedford, William Bryant, y gweithfeydd haearn yn 1825. Fel Bedford, roedd ganddo uchelgeisiau ar gyfer y safle a dechreuodd brosiect moderneiddio. Teimlai hefyd y byddai'r busnes yn elwa o agor rheilffordd y Dyffryn, Llynvi a Porthcawl yn 1828. Dechreuodd y dramffordd hon ym Maesteg ac aeth i ddociâu newydd ym Mhorthcawl, gan alw yng Nghefn Cribwr a safleoedd diwydiannol eraill i ddarparu gwell mynediad i'r môr.

Yn anffodus, doedd y gwaith ddim yn llwyddiannus, efallai oherwydd ansawdd gwael y deunyddiau, a daeth gweithio haearn i ben ar y safle hwn yn 1836. Dim ond am tua 30 mlynedd y parhaodd gweithiau haearn ar y safle hwn, ond parhaodd gweithiau brics a chloddio glo yn yr ardal tan yr ugeinfed ganrif.

Fodd bynnag, mae olion y gwaith haearn yn rhoi cipolwg unigryw ar orffennol diwydiannol y rhanbarth. Rhoddodd John a Carole gipolwg diddorol iawn ar yr olion a sut roeddent yn ffio i'r broses gwneud haearn. Dyna pam mae'r gweithfeydd haearn yma yn bwysig. Mae'n bosib dilyn y broses trwy'r olion ac adfeilion - f f y r n a u golosg, ffyrnau calch, ffyrnau chwyth, tŷ injan a'r blociau o gerrig tyll ogar gyfer y dramffordd.

Yn ogystal â'r olion diwydiannol, mae John a Carole wedi helpu i greu byrddau stori ddwyieithog i ddod â phrofiadau dychmygol gweithwyr yn fyw. Mae'n lle diddorol iawn a

mwynheuodd pawb yr ymweliad yn fawr iawn. Diolch i John a Carole.

Digwyddiad nesaf - Nos Lun 8 Mehefin am 6 30yh - Ymweliad â'r Bontfaen gyda Gareth Thomas i ddilyn llwybr Iolo Morgannwg.

Os bydd diddordeb gyda chi, rhowch wybod i mi, nestahumphreys@btinternet.com

Mae tudalen Facebook gyda'r Gymdeithas a dyma'r ddolen.

https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr/?locale=en_GB

Taith Beicio Velomaritime Mikeal ac Yvonne Conq



Dydd Sadwrn, Mehefin 21

Avranches – Mont San Michel (26 km)

I ni, mae'r ymweliad â Mont St Michel yn cynrychioli uchafbwynt y mae'n rhaid ei weld ar ein taith yn 2025. Mae'r rhan o'r daith hon yn ein hatgoffa o Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi yng Nghymru, Eglwys Gadeiriol Santiago de Compostela, neu gyrraedd y Palais des Papes yn Avignon! Hudolus, godidog, chwedlonol, lle llawn ysbrydolrwydd a diwylliant.



Dolydd halen o flaen Mont St Michel

Rydym yn croesi'r dolydd halen, y dolydd hyn sydd cael eu gorchuddio gan y môr yn ystod llanw uchel sy'n caniatáu bridio defaid gyda blas unigryw diolch i'r halen yn y môr. Dyma grŵp o

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

bererinion "y miquelots" mewn myfyrdod ysbrydol neu ar daith gerdded i ddarganfod tywod symudol a bioamrywiaeth.



Afon Couesnon, fin rhwng Llydaw a Normandi

Rydym yn darganfod dolennau'r afon Couesnon a roddodd Mont St Michel yn Normandi yn ei gwallgofrwydd! Dywed dywediad arall "Pan fydd y Couesnon yn adennill ei reswm, bydd y Mont yn ôl yn Llydaw eto!" Dyma ffin naturiol dwyrain Llydaw!

Ers 2014, mae pont droed o 2km wedi'i godi i gadw'r Mont yn ynys. Rydym yn ei chyrraedd ar droed gyda'r nos i osgoi'r don o wres a'r torfeydd o dwristiaid. Mae'r abaty Benedictiad, sydd wedi'i gysegru i'r Archangel Sant Mihangel, yn rhyfeddod, yn gampwaith pensaernïol sy'n rhychwantu 1,300 o flynyddoedd o hanes, yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.



Tatws yn tyfu yn y tywod

Dyma'r safle mwyaf poblogaidd yn Ffrainc ar ôl Paris. Mae ei ragfuriau a'i gaerau wedi gwrthsefyll pob ymosodiad milwrol, yn enwedig y rhai gan y Saeson.

Mae'r gymuned, gyda'i 30 o drigolion, yn cynnwys nifer o siopau a busnesau sy'n cynhyrchu trosiant blynyddol o 80 miliwn ewro. Mae'n croesawu tair miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, llawer ohonynt yn Japaneaid, ond hefyd yn bererinion.

Daw llawer yma i addoli'r Archangel Sant Mihangel, a ddywedir iddo fynnu bod yr Esgob Aubert yn adeiladu'r cysegr.

Yn yr Oesoedd Canol, ymddangosodd Sant Mihangel fel yr angel uchaf yn yr hierarchaeth ac arweinydd y byddinoedd nefol! Ar gopa'r mynydd, mae'n cael ei gynrychioli gan gleddyf a chlorian. Mewn cylchoedd crefyddol, mae'n ymladd ac yn trechu'r diafol neu'r cythraul, a symboleiddir gan ddraig! Mae'n pwysu eneidiau ar Ddydd y Farn!

Dydd Sul, Mehefin 22

Mont San Michel

Le Vicomte / Rance (45 km)



Yvonne a Mikeal

Ar ôl noson yng ngwersyll Mont St Michel, rydym yn croesi'r corsydd gwastad tuag at Dol de Bretagne; rydym yn gweld cennin, tatws, letys, a llysiau eraill sy'n cael eu tyfu ar bridd tywodlyd. Dyma ni yn Ile et Vilaine. Mae Mont-Dol, 65 metr uwchben lefel y môr, yn hawdd ei weld.



Cae maïs o flaen Mont St Michel

Mae Dol de Bretagne yn dref swynol a oedd yn esgobaeth tan Chwyldro 1790. Rydym yn edmygu Eglwys Gadeiriol Sant Samson o'r 12fed ganrif, a enwyd ar ôl un o saith sant a sefydlodd Llydaw. Daeth Dol hyd yn oed yn brifddinas grefyddol Llydaw o dan deyrnasiad Nominoe, y mae ei gerflun yn sefyll o flaen yr eglwys gadeiriol. Yn y sgwâr, rydym yn sgwrsio ag aelod

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

o grŵp cerddoriaeth Geltaidd Dol, "An Hanternoz."



Dinas Dol de Bretagne

Mae'r ffordd i La-Vicomté-sur-Rance yn fryniog. Rydym yn gorffwys yn ystod gŵyl bentref heulog cyn cyrraedd tŷ ein gwesteiywyr, perchnogion tŷ gwellt godidog ar stiltiau. Mae ein trafodaeth ddiddorol yn canolbwyntio'n bennaf ar hunan-adeiladu eu cartref.

Dydd Llun, Mehefin 23

La Vicomte/Rance- Saint Gondran (49 km)



Lehon, tref dwristiaid

Mae pentref La-Vicomté-sur-Rance wedi'i leoli ger Dinan. Rydym yn reidio mewn glaw mân ac yn cael teiar fflat arall wrth i ni gyrraedd porthladd Dinan. Rydym yn ei drwsio'n gyflym yn ystod ein hegwyl te llysieuol tua 10 a.m. Mae ein taith yn dod i ben; mae gennym dair cymal byr ar ôl gyda chynnydd uchder hawdd iawn i gyrraedd Rennes! Felly rydym yn gwneud y gorau o bob eiliad, gan werthfawrogi'r cyfle i allu reidio gyda'n gilydd, yn ein hoedran.



Camlas afon Rance

Rydym yn osgoi canol dinas Dinan i osgoi bryn ac yn pasio trwy Léhon, tref fach swynol gyda'i strydoedd coblog a'i thirweddau godidog. Rydym yn teithio'n hamddenol ar hyd Camlas Ile et Rance a'i llidiardau wedi'u haddurno â blodau. Rydym yn mynd trwy Tinténac ac yn edmygu ei heglwys neo-Romanésg o'r 20fed ganrif, heneb hanesyddol rhestredig.

Wrth i ni adael canolfan siopa, rydym yn cwrdd â chwpl ifanc o dwristiaid beicio o Béarn sy'n gadael am daith feicio hir i Wlad Groeg ac yna i Ynys Réunion. Rydym yn edmygu eu hysbryd anturus! Yna, cawn groeso cynnes gan Raymonde a Patrick yn St Gondran. Rydym yn eu hadnabod oherwydd bod ein mab Erwan a'u mab Goulc'hen wedi bod yn gydweithwyr ers eu dyddiau ysgol yn Diwan.



Tŷ blodeuog ger Rennes

Cerddoriaeth Gymraeg

gan Anthony Morgan



Fel arfer dw i'n gwrando ar albymau Cymraeg wedyn ysgrifennu amdany'n nhw yn Y Wennol . Y tro hyn, gyda Tafwyl rownd y gornel, dw i'n gwneud rhywbeth bach yn wahanol. Bydd llawer o artistiaid anhygoel yn perfformio yn Nhafwyl, felly taswn i'n gallu gweld dim ond tri, pwy faswn i'n gweld?

Mae fy newis cyntaf ar dân ar hyn o bryd. Mali Hâf, neu'r "Cwîn Celtaidd" fel mae hi'n enwi ei hun, yn cymysgu cerddoriaeth pop, dawns a

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

gwerin i greu sŵn pwerus a chyfoes. Derbyniodd hi lawer o ganmoliaeth am ei pherfformiad ar y llwyfan “Emerging Talent” yn Glastonbury. Roedd e’n sioe egniol a lliwgar gyda Mali yn gwisgo paent Celtaidd ac yn canu yng nghanol dawnsyr oedd yn gwisgo masgiau llwynog.

Mae Mali newydd ryddhau ei thrydydd albwm, o’r enw Miwslï, sy’n cynnwys ei hanthem genedlaethol ffeministiaid ac, efallai ei sengl fwyaf hyd yn hyn, sef H.W.F.M. Mae hi wedi bod yn brysur iawn yn ryddhau senglau eraill, gan gynnwys rhai o ffefrynnau fi fel Llais a David Byrne (Dai Llog). Dw i’n edrych ymlaen at weld beth sy nesa oddi wrth Mali ac mae hi’n sicr o fod hyd yn oed yn fwy o seren cyn bo hir.

Fy newis nesa ydy Sage Todz, artist rap a dril o Ogledd Cymru. Ystyrir ei gân, Rownd a Rownd, y trac dril cyntaf yn Gymraeg ac mae hi’n gân eiconig yn barod. Mae Sage yn rapio am bynciau fel hunaniaeth, hiliaeth a phwysigrwydd ei wreiddiau Cymreig a Nigeriaidd. Ar ôl llwyddiant ei albymau King in the North a Stopia Cwyno mae e’n seren go iawn sy dal yn codi. Hefyd, mae e wedi cymysgu cerddoriaeth draddodiadol a newydd, gan ryddhau O Hyd, lle mae e’n rapio dros Yma O Hyd i greu anthem ei hun.

Perfformiwr talentog hefyd ydy Sage, sy’n gwella trwy’r amser. Roedd ei set yn Nhafwyl 2024 gyda Dom & Lloyd yn arbennig o fywiog ac yn hwyl. Roedd y dorf wrth eu boddau yn barod pan ymunodd Sage â Dom James yn canu yn eu canol i greu moment bythgofiadwy.

Fy nhrydydd dewis ydy NoGood Boyo, un o’r bandiau Cymraeg cyntaf i fi wrando arno. Mae’n deg i ddweud bod nhw wedi creu argraff arna i. Maen nhw wedi cael ei disgrifio fel “petai Enter Shikari, The Prodigy a Meredydd Evans, yn cael ei gloi mewn un ystafell ac yn dechrau gwneud sŵn”. Maen nhw’n cymysgu cerddoriaeth rap, metel, electronig a gwerin i gynhyrchu sŵn unigol bod nhw’n galw’n “trad-trash”, term sy’n disgrifio’u delwedd hefyd, gyda’u hetiau traddodiadol Cymreig, siwtiau boeler a sbectol haul.

Does dim albwm gyda nhw eto ond maen nhw wedi rhyddhau chwech sengl, pob un sy’n banger a hanner. Mae eu perfformiad anhygoel yn Festival Interceltique de Lorient yn 2024 ar gael

ar YouTube ac mae’n sicr bydd eu perfformiad yn Nhafwyl yn gymaint o fythgofiadwy.

Mae Tafwyl yn digwydd ar 20fed a 21ain Mehefin yng Nghaerdydd a dyma ddim ond blas bach o’r bandiau sy’n ymddangos. Mwynhewch y sioe!

Ydych Chi’n Cofio?

- mis Mai 1950

gan Patrick Soper



Pan gyrhaeddodd yr Ail Ryfel Byd Prydain ym mis Medi 1939, roedd rhaid cyflwyno rhestr o mesurau argyfwng. Ymhlith y rheini oedd angen dogni amrediad o nwyddau, gan gynnwys petrol. Ac er daeth y rhyfel i ben ym mis Tachwedd 1945, parhaodd dogni am flynyddoedd, yn bennaf oherwydd roedd angen cymaint o’n hadnoddau er mwyn atgyweirio isadeiledd ac ailadeiladu ein trefi a’n dinasoedd.

Cafodd llyfrau dogni eu rhoi i yrwyr, gyda phob un o’r cwponau yn ddilys am amser byr yn unig. Rhwng 1945 a 1950 roedd pobl yn cael caniatâd i yrru am ddim ond tua 200 milltir pob mis. Roedd llawer o bobl yn anfodlon gyda llywodraeth Llafur Clement Atlee, yn awchus am ddiwedd dogni. Erbyn yr 1940au hwyr, yn ôl Hansard, roedd ym Mhrydain, yn fras, 2,100,000 o geir a 640,000 o feiciau modur.

Y tu ôl i’r llenni, roedd cynrychiolwyr Gweinyddiaeth Danwydd a Phŵer eisoes mewn trafodaethau gyda chwmnïau olew Americanaidd, a daethon nhw i gytundeb - byddai’r cwmnïau yn cyflenwi olew crai i Brydain, ynghyd â phurfeydd a storfeydd olew. Byddai Prydain yn talu drwy gyflenwi America ag amrywiaeth o nwyddau gweithyddol.

Cyn gynted a chafodd y cytundeb ei lofnodi, ar y 26ain mis Mai 1950, datganodd y llywodraeth y byddai dogni tanwydd yn dod i ben ar ôl hanner nos. Digwydd bod, roedd hyn ar

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

benwythnos y Sulgwyn a, fin nos, roedd cynffonau hir o geir wrth yr orsafoedd petrol. Tra iddyn nhw aros yn y cynffonau roedd gyrwyr yn mynd ati i rwygo eu llyfrau dogni tanwydd yn ddarnau, yn dathlu diwedd ddogni ar ôl deg mlynedd.

Yn ystod y penwythnos estynedig hwnnw, daeth adroddiadau o gerbydau yn sownd mewn cynffonau enfawr mewn llawer o gyrchfannau arfordirol, ayb. A dywedwyd y gallai defnydd petrol cynyddu yn syth i gymaint â miliwn tunnell bob blwyddyn.

Ydych chi'n cofio?

..... O

Byddech chi wedi sylwi, wrth edrych yn ofalus bod Patrick wedi cyfrannu dwywaith yn y rhifyn yma. Na, dydi o ddim yn mynd yn dw-lali. Mae o yn cyfrannu yn gyson - bob mis a dw i wir yn gwerthfawrogi ei ffyddlondeb.

Fy mai i ydi hyn i gyd ond dw i'n beio'r Nadolig, mae'n bwysig bod pethau'r Nadolig yn mynd i rifyn y Nadolig, sef - mis Ionawr!

Ia, ac mae hynny'n wirion hefyd ond dydy newyddion mawr y Nadolig ddim ar gael ar ddiwedd mis Tachwedd. Felly mae rhifyn Nadolig o'r Wennol (hynny yw Wennol mis Ionawr yn dod allan cyn y Nadolig.)

Er mwyn torri stori sydd yn barod yn rhy hir, yn fyr. Doedd dim lle ar ôl i gyfraniad Patrick yn rhifyn y Nadolig. Dach chi wedi cael digon o'r rwtsh yma erbyn hyn?

Fy mai i yw hyn i gyd!

Dyna ni, dw i wedi dweud.

Cymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt

Hud yn y Tir

Adroddiad gan Martin Jones

Diolch fawr iawn i'n his-gadeirydd Brian Davies am gytuno ar fyr rybudd i lenwi bwlch yn ein rhaglen. Ar ôl y dirgelwch o "Pwy Oedd Herbert" y llynedd a'r "Parc Nad Oedd" yn gynharach yn y tymor hwn, dewisodd Brian bwnc arall cyfareddol: "Hud yn y Tir."

Cyflwynodd Brian ei sgwrs gan gyfeirio at ddigwyddiad yn ei deulu. Esboniodd sut roedd ei dad yn dioddef o'r clefyd melin a sut roedd ymdrechion y meddyg i'w iachau yn ofer.

Dyna pan gamodd ei fam-gu i'r adwy gan ddefnyddio hen feddyginiaeth draddodiadol - a dyna fe ar wellhad! Aeth Brian ymlaen i siarad am bethau fel meddygaeth lysieuol (sy'n mynd yn ôl i'r amser cyn Crist ac sydd i'w weld yng nghyfreithiau Hywel Dda - ac, wrth gwrs, roedd mor bwysig i feddygon Myddfai); y gwahaniaeth rhwng cof gwerin a hanes ; cyfriniaeth; dynion hysbys; a meini magl.

I fi, roedd clywed am y dynion hysbys a'r meini magl, pethau doeddwn i ddim yn gyfarwydd â nhw cyn y cyfarfod, yn hynod o ddiddorol. Pobl pwysig iawn yn eu gymuned oedd y dynion hysbys. Roedden nhw'n iachawyr, daroganwyr, a bydden nhw'n darparu swynion i ddiogelu pobl ac eiddo rhag mellthion. Modrwy, sy'n efallai modfedd neu fodfedd a hanner ar ei thraws, ac sy'n edrych fel petai wedi'i gwneud allan o wydr ydy maen magl. Yn ôl llên werin, byddai clwstwr o nadroedd yn dod at ei gilydd a bydden nhw'n troi a throsi neidr marw ac yn raddol, gan ddefnyddio eu poer, yn ei droi fe yn fodrwy.

Roedd pobl yn credu gallai meini magl iachau anhwylderau'r llygad, naill ai gan droi'r maen ar yr amrant neu gan adael i'r maen sefyll mewn dŵr ac wedyn gan ddefnyddio'r dŵr i drin y llygad. Ac er mawr syndod i fi - ac, rydw i'n siŵr, i bawb yn y gynulleidfa, ar ddiwedd sgwrs Brian, cawson ni'r cyfle i weld maen magl gan fod un gydag ein cadeirydd, Prys Morgan.

Esboniodd Prys bod y maen magl wedi bod yn y teulu ers canrifoedd a byddai pobl leol yn ymweld â'r teulu i gael eu hiachau o anhwylderau'r llygad. Ond mae'n rhaid i fi gyfaddef, hyd yn oed ar ôl gweld enghraifft o faen magl, bod gen i ddim syniad beth maen nhw mewn gwirionedd!

Diolch yn fawr i Brian am sgwrs mor ddiddorol. Rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen at eich dirgelwch nesaf. Cynhelir ein cyfarfod nesaf am 19.00 ar 15fed o fis Mehefin pan fydd Côr Tŷ Tawe yn dod i'n diddanu ni. Roedd eu hymweliad y llynedd yn un o uchafbwyntiau'r rhaglen. Felly, dewch yn llu!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Geirfa

Gerddi Aberglasne

Adfer -restoration
Ebargofiant - oblivion
Esgeulustod - neglect
Cymeradwyo - to recommend
Gardd furiog - walled garden
Uchafbwynt - highlight
Coetiroedd - woods
Barcud - Red Kite
Plymio - to dive

Catherine Evans

Chwarel Calchfaen - limestone quarry
Heddychlun - peaceful
Diwydiant - industry

Alan Watkins

O ddifri - seriously
Gwirfoddolwr - volunteer
Cleifion - patients
Clwb cerfio - carving club
Llwyau caru - love spoons
Gweithdy - workshop
Turnen - lathe

Gogledd sir Benfro

Clychau'r gog - bluebells
Blodau neidr - greater stichwort
Bysedd y cŵn - foxgloves
Llysiau'r llwynog - herb Robert
Blodau'r menyn - buttercups
Archnain - thrift
Gwlydd y geifr - goat's weed

Maria Lalic

Her - challenge
Pabell Cofrestriad - Registration tent
Noddwyr - sponsors
Cronfa - fund

Joan Cooper

Camlas - canal
Alarch - swan

Telynores o Swydd Efrog

Diwylliant - culture

Trefniadau - arrangements
Cerddoriaeth werin - folk music
Telyn Deires - triple harp
Llinynnau - strings
Dychmygwch - imagine
Canlyniad - result
Anfwriadol - unintended

Telynes o America

Cysylltiad - connection
Treftadaeth - heritage
Archwilio - research
Datganiad - recital
Hyfforddwr - coach
Tanio - fire up
Ysgoloriaeth - scholarship
Galluogi - to enable
Cwrs dwys - intensive course
Cynnal - to hold (an event)
Trochi - to soak
Gweithgaredd - activity
Hwyluso - to facilitate

Stori Drist a Dwys

Sefyllfa - situation
Canlyniad - result
Dirgelwch - mystery
Dioddefaint - suffering
Anifeiliad anwes - pet animal
Anghenion - needs
Gwasanaeth - service
Claddu - to bury
Collen droellog - twisted hazel
Carn - cairn
Grŵp ymchwil - research group
Bywyd beunyddiol - daily life
Ennynau - genes
Cadarnhaol - positive

John Cullwick

Prydles - lease
Cyflwyniadol - introductory
Ffyniannus - successful
Preswlydd - resident

Cwrs Cymraeg

Cyflwyno - to introduce
Trafod - to discuss

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Amrywiol - various
Pwnc - subject
Awyrgylch - atmosphere
Dymunol - acceptable
Pleserus - pleasurable

Ydych chi'n Cofio?

Cyfes o frwydrau - a series of battles
Perchnogaeth - ownership
Adnoddau - resources
Datgan - to announce
Di-baidd - constant
Tiriogaeth - territory
Anghyfleustra drud - expensive inconvenience
Trosglwyddo - to transfer
Blin fel cacwn - really, really annoyed
Llu arfog - armed force
Unben - dictator
Cyrchlu - attack force
Trethdalwyr - taxpayers (you and me)

Argyfwng

Gwirio - to check
Ymdrech - effort
Pembleth - quandary
Gwallus - incorrect
Anhebygol - unlikely
Olrhain - retrace
Ymrwymedig - committed
Cyfyngu - to thicken
Ar gynydd - increasing
Haen - layer
Argyfwng - emergency

Byd Natur

Clust y Llygoden Oren - Orange Hawkbait
Llygad y Dydd - daisy
Ehangu - to widen, spread
Gwydn - tough
Clwt - patch
Atyniadol - attractive
Blodau menyn - buttercups
Rhedegwyr - runners
Llau'r offeiriad - common cleavers
Cynorthwyo - to assist
Dosbarthu - to spread
Dod i'r fei - to appear
Tiwbiaidd - tubular

Gwrychen - bristle
Glynu - to stick
Ystod o glefydau - a range of ailments
Anhwylderau'r croen - skin complaints
Fforwyr - foragers
Ffisig cryfhaol - tonic
Crasu - to roast

Cymdeithas Hanes

Adfeilion - remains
Gweithfa diwydiannol - industrial works
Cloddfa archaeolegol - archeological dig
Cyllid - budget
Trawsnewid - to transform
Treftadaeth - heritage
Cynhyrchu - to produce
Haearnfaen - iron ore
Calchfaen - limestone
Cyflenwad - supply
Argaeledd - availability
Deunydd crai - raw materials
Uchelgais - ambition
Elwa - to profit
Byrddau stori - story boards

Taith beicio

Cynrychioli - to represent
Hudolus - magical
Godidog - splendid
Chwedlonol - mythical
Gorchuddio - to cover
Myfyrdod ysbrydol - spiritual meditation
Tywod symudol - shifting sands
Gwallgofrwydd - madness
Torf - crowd
Cysegro - to dedicate
Rhychwantu - to span
Rhagfur - rampart
Trosiant blynyddol - annual turnover
Byddinoedd nefol - heavenly army
Dydd y Farn - Day of Reckoning

Cerddoriaeth Gymraeg

Cyfoes - contemporary
Canmolïaeth - praise
Egñiol - lively, energetic
Llwynog - fox
Ystyrio - to consider

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Hiliaeth - racism

Bythgofiadwy - memorable

Ydych chi'n cofio (2)

Gweithredau argyfwng - emergency measures

Dogni - to ration

Amrediad - a range

Atgyweirio - to repair

Isadeiledd - infrastructure

Awchus - eager

Yn fras - roughly

Cynrychiolwr - representative

Cyflenwi - to supply

Olew crai - crude oil

Purfeydd - refineries

Gweithyddol - manufactured

Llofnodi - to sign

Cynffonau hir - long tailbacks

Rhwygo - to tear up

Estynedig - extended

Gwerthfawrogi - to appreciate

Ffyddlondeb - faithfulness

Hud yn y Tir

Cyfareddol - intriguing

Clefyd melyn - jaundice

Camu i'r adwy - step into the breach

Meddyginiaeth - medicine

Traddodiadol - traditional

Lysieuol - herbalism

Cof gwerin - folk memory

Cyfriniaeth - mysticism

Iachawyr - healers

Daroganwyr - foretellers

Swynion - charms

Melltithion - curses

Anhwylderau'r llygad - eye ailments